Ac enw eu meistr bydenwog
Yn fyw amryw oesau a ddêl
Pryd hynny y Carwn dy weled
Pryd hynny try'r chwerw yn fêl.
Josi'r Gof[19]

Yn ei flynyddoedd cynnar, mynychai William yr Ysgol Sul yn Esgairdawe ac oedfaon y capel yn ogystal. Er iddo, erbyn hyn, deithio'n helaeth ar draws y byd, mae rhyw reddf yn ei dynnu'n ôl i'w gynefin. Pery i fod yn aelod o'r capel a bydd yn mynychu oedfa pan ddaw cyfle. Wrth edrych yn ôl, sylweddola fod bywyd cymdeithasol a diwylliannol Esgairdawe wedi ei seilio ar ddwy ganolfan – yr ysgol a'r Capel Annibynnol. Ym marn William, dylanwad y capel oedd gryfaf.

Yn ganolbwynt i'r cyfan, yr oedd y gwasanaeth a roddwyd gan weinidog yr eglwys am hanner can mlynedd – y Parchedig Giraldus Jones. Ni ddaeth i feddwl William fod ganddo bersonoliaeth arbennig o gynnes; 'roedd ei berthynas gyda'i braidd yn un o gryn barchusrwydd yn hytrach na hoffter yn ystod ei flynyddoedd cyntaf yn Esgairdawe. Fodd bynnag, drwy ei weinidogaeth gysegredig a ffyddlon newidiodd y berthynas yn raddol dros y blynyddoedd, ac erbyn ei farwolaeth ym 1978, câi ei ystyried gydag edmygedd o'r radd uchaf, a byddai'n mwynhau serch a defosiwn pawb a'i hadnabu.

**E.E. Hughes**

Ym Mryn-yr-ysgol, rai cannoedd o lathenni o Nant Tawe, y ganed Edward Emyr Hughes ym 1933, – y cyntafanedig o dri phlentyn Hugh John a Lizzie Mary. Wedi marwolaeth William Morgans, ei dadcu, ym 1936, symudodd y teulu i Fferm Esgairdawe, lle'r arhosodd ei rieni hyd eu hymddeoliad. Yno y ganed y ddwy ferch, Enid a Delyth.

Aeth Emyr i ysgol Esgairdawe ym mis Medi, 1938 yng nghwmni Oswald Morgan, Tredomen. Ar staff yr ysgol yr oedd y prifathro, E.H. Evans a Marion P. Reeves, yr athrawes gynorthwyol. Uwchben y lle tân, ar fur ystafell y plant hynaf, yr oedd map o'r byd, yn dangos gwledydd yr Ymerodraeth Brydeinig mewn coch. Ychydig a feddyliodd Emyr, y pryd hwnnw, y câi fyw i weld yr ymerodraeth honno yn peidio â bod.

Yn y cyfnod hwnnw, 'roedd cystadleuwyr treialon beiciau modur yn mynd heibio'r ysgol yn flynyddol. Teithient i lawr

o Fynydd Pencarreg, heibio Alltfydir ac i fyny'r rhiw, drwy'r pentref, i gyfeiriad Tafarn Jem a Thregaron. Prydeinwyr oedd y mwyafrif o'r beicwyr, ond 'roedd llawer ohonynt o'r Eidal, Awstria, Yr Almaen, Ffrainc a'r Iseldiroedd. Fel yr oeddynt yn gwibio heibio, galwai'r prifathro enwau'r gwahanol wledydd, tra eisteddai'r plant fel adar y to ar fur ffin yr ysgol. Dyna beth oedd mwynhau gwers ddaearyddiaeth allan yn yr awyr agored!

Y radio gyntaf a glywodd Emyr oedd honno yng Nghae-mawr, fferm gyfagos, lle trigai Ann Price, Elizabeth a John. Roedd llefarydd y radio honno ar ffurf trwmped, yn debyg i'r hen gramoffon. Pan oedd pawb yn sgwrsio o gwmpas y bwrdd, y cwestiwn a ofynnodd Emyr oedd "A yw'r person sy'n siarad yn ein clywed ni hefyd?"

Daw'r Ail Ryfel Byd yn fyw iawn i gof Emyr er mai plentyn ifanc oedd ef ar y pryd. Diwrnod heulog oedd y Sul, Medi'r 3ydd, 1939, pan alwodd William Morgan, Tredomen i ddweud bod Prydain wedi cyhoeddi ei bod yn mynd i ryfela yn erbyn yr Almaen. Yn fuan, daeth awyrennau bomio yn bethau cyffredin. O ganlyniad i hyn, symudwyd y plant o'r dinasoedd i'r ardaloedd gwledig. Daeth tri bachgen o Lundain i ardal Esgairdawe. Ymgartrefai Stanley a John Garnet ym Mlaen-cwm a Derek Laleen yn Nhredomen. Symudodd teulu Sydney ac Arthur Mallory o Abertawe i Bant-teg am fod eu cartref wedi ei ddinistrio â bomiau. Mynychent yr ysgol leol, a byddent yn pasio Llwynowen, cartref gwraig hynod o'r enw Mari Jones. Yn achlysurol, byddai'r ffoaduriaid a ddaeth o Lundain yn dwyn cerrig gwynion, bychain o'r beddau yn y fynwent gerllaw a'u taflu i ben to Llwynowen. Roedd ffon yn llaw Mari bob amser ac 'roedd yn rhaid i'r troseddwyr redeg am eu bywydau neu deimlo blas y ffon. Yn aml, gofynnai'r hen wraig i Emyr rifo o un hyd ugain neu hanner cant. Byddai'n dwrdio'n hallt pan glywai ef yn dweud "dau ddeg" yn lle "ugain" ac yn achwyn wrth ei fam wedyn fod athrawon yr oes yn difetha'r iaith Gymraeg.

Sylweddola Emyr i'r rhyfel ddod â chyfnewidiadau yn y ffordd o fyw, hyd yn oed mewn ardal wledig fel Esgairdawe. Roedd dogni bwydydd mewn grym a chyflwynwyd cwotáu llym ynglŷn â thyfu cnydau ar bob fferm. Daeth aredig tir diffaith a hau hadau pwrpasol yn gyffredin. Tynnwyd arwyddion ffyrdd i lawr, gan greu anhawster i ddieithriaid. Ffurfiwyd Gwarchodlu

Cartref yn Esgairdawe a chyda'r ffaith fod bom wedi disgyn o awyren Almaenig ar Fynydd Pencarreg, un nos Sul, teimlai'r trigolion yn ofnus a diymadferth. Gwelid grwpiau o garch-arorion o'r Almaen a'r Eidal yn y gymdogaeth. Deuent i gyflawni rhyw weithgaredd, megis cloddio cwteri, ar rai o'r ffermydd.

Aeth Emyr i Ysgol Sir Llandeilo ym 1944, gan adael ym 1949 wedi ennill ei Dystysgrif Ysgol. Cofia'n dda am yr wythfed o Fai, 1945 pan gyhoeddwyd fod yr Almaen wedi rhoi'r gorau i ymladd a dyna derfyn y rhyfel yn Ewrop. Dri mis yn ddiweddarach, ildiodd Siapan. Bu nifer o athrawon Ysgol Sir Llandeilo yn gwasanaethu yn y Rhyfel Byd Cyntaf, ac o 1946 ymlaen, ymunodd llawer a fu'n gwasanaethu yn yr Ail Ryfel Byd â staff yr ysgol.

Dyma rai o atgofion Emyr am ardal ei febyd. Lled araf y symudai'r bobl parthed datblygiadau newydd, ond gwelwyd rhai newidiadau rhwng 1930 a 1950. Daeth y modur i gymryd lle'r ceffyl a'r drol, a'r tractor i ddisodli'r ceffyl gyda gwaith y fferm. O ganlyniad, cynyddwyd y cynnyrch a daeth gwell amodau byw. Cafodd y ddwy gaseg, Countess a Scot, a fu'n llafurio ar Fferm Esgairdawe, ymddeoliad cynnar pan gymerodd y tractor drosodd, ond parhaodd y ddwy i fyw yno hyd ddiwedd eu hoes.

Daw nifer o'r hen gymeriadau y cyfarfu Emyr â hwy yn ôl i'w feddwl. Ym mhedwardegau'r ganrif, trigai Evan Davies mewn bwthyn tô gwellt ar y groesffordd ger Tafarn Jem, a gedwid gan ei ferch. Dyn byr, llydan ei ysgwyddau oedd Evan, gyda barf laes, wen. Dywedai, ei fod yn ei fachgendod tua 1880, yn arfer cerdded i Henffordd, a chario pladur i ladd gwair tua diwedd Mai. Yna, dychwelai i wneud hynny ar y ffermydd lleol ym mis Gorffennaf. Dechreuai ar ei waith ar doriad gwawr, gan weithio hyd ganol dydd; cymryd seibiant cyn ailgychwyn tua phump o'r gloch a pharhau nes iddi nosi, – cyfartaledd o ddeuddeg i bedair awr ar ddeg y dydd.

Tua unwaith y flwyddyn, deuai Bertie Stephens o Langeitho a William Jones, cigydd o Lambed i Fferm Esgairdawe i hela cadnoid a moch daear. Un diwrnod, cyrhaeddodd Berti wrtho'i hun, gan obeithio dal cadno am fod helfa yn Felinfach y dydd canlynol. Darganfu'r terier gadno yng nghae Pen-rhiw ac aeth Bertie i'w gloddio allan. Tra oedd wrthi, digwyddodd Miss Jones, Llwynowen basio hebio ar yr heol. Aeth i fyny i'r cae

er mwyn gweld beth oedd yn mynd ymlaen yno. Ymhen hir a hwyr, llwyddodd Bertie i afael yn y cadno a'i dynnu allan gerfydd ei war gyda'i law chwith, a chyda'r un dde, agorodd sach i'w roi ynddi. Pan oedd ar fin gwneud hynny, cododd Mari ei ffon a cheisio rhoi ergyd ar ben y cadno, ond methodd, gan fwrw cefn llaw chwith Bertie yn lle hynny. Tra oedd y ddau'n melltithio'i gilydd, llwyddodd Bertie i gael y cadno i'r sach heb ragor o niwed corfforol. Ond, mynnai Mari nad oedd hawl ganddo ddwyn llwynoges i ffwrdd. Dylid ei lladd yn y fan a'r lle; eithr mynnu ei ffordd a wnaeth yr heliwr.

Roedd William Morgan, Tredomen yn hanesydd craff. Cymerai ddiddordeb arbennig mewn enwau lleoedd a hanesion lleol. Pan oedd yn fachgen ifanc yn Nhroed-y-rhiw, clywodd am dair dynes yn croesi'r bryn o Droed-y-rhiw i Dan-ffordd yn ystod storm o fellt a tharanau. Cerddent ymlaen, fraich-ym-mraich. Trawyd y ddynes oedd yn y canol gan fellten a lladdwyd hi. O dro i dro, ceid ambell ddafad farw wedi ei tharo gan fellten, ond, mae'r stormydd taranau erchyll a oedd yn gyffredin rai degawdau'n ôl wedi cilio. Diau fod adeiladu peilon trydan yma a thraw ar hyd y wlad yn gyfrifol am leihau'r trydan statig yn yr aer.

'Slawer dydd, ceid nifer o fythynnod ger Fferm Esgairdawe. Ceid un yn Esgairdawe Fach, lle adeiladwyd yr Hen Dŷ Cwrdd. Gof oedd yr olaf i fyw yno, tua dechrau'r ganrif o'r blaen. Gellir gweld ffynnon gerllaw heddiw, ond profodd Emyr fod y dŵr a geir ohoni yn gyrydol. Roedd yna fwthyn rhwng Fferm Esgairdawe, Tyn-grug a Than-ffordd – rai llathennu o'r heol. Credir mai "tŷ unos" ydoedd. Clywodd William Morgan, Maesygwiail, un o'r ardalwyr, fod yr hen wraig a drigai yno wedi ei hysbeilio a'i llofruddio un noson. Yn ôl dogfen a welodd Emyr ynglŷn â'r digwyddiad, daliwyd y llofrudd mewn tafarn yn Llansawel. Dygwyd ef i Aberteifi i sefyll ei brawf; cafwyd ef yn euog a chrogwyd ef yng ngharchar y dref. Digwyddodd hyn tua chwedegau'r ganrif ddiwethaf.

Mae'n rhyfeddod i Emyr sut y medrodd yr ardalwyr gael digon o gyllid i godi'r capel presennol a agorwyd ym 1844. Roedd hynny adeg y dirwasgiad economaidd a ddaeth ar ôl y Rhyfeloedd Napoleonaidd a ddaeth i ben ym 1815. Heb amheuaeth, cadwodd mudiad yr Anghudffurfwyr y bobl gyda'i gilydd a'u cynorthwyo i godi eu pennau a chanfod 'gobaith'

ar y gorwel pell. Os amgen, fe fyddai yna ryfel cartref. Yn ogystal, cafodd y werin bobl nerth i wrthsefyll yr hyn a arweiniodd at Derfysgoedd Beca.

Arweinyddion yr Ysgol Sul yng Nghapel Esgairdawe mewn un cyfnod oedd Joshua Jones, y gof a Dafydd Jones, y teiliwr. Yr olaf oedd hoff athro Emyr am ei fod yn medru rhoi disgrifiadau byw, lliwgar ar y testunau Beiblaidd. Storïau'r Hen Destament a apeliai fwyaf ato, megis hanes Moses yn cael ei ddarganfod mewn cawell ar Afon Nîl. Ymwelodd Emyr â'r Aifft a bu'n astudio ei hanes, sy'n mynd yn ôl am saith mil o flynyddoedd. Dyma ffordd yr Eifftiaid o reoli'r boblogaeth. Cyfrifid y crocodil fel un o'u duwiau ac 'roedd yn rhesymol y byddai baban diangen a deflid ar yr afon yn bodloni un o'r duwiau. Bu Moses yn ffodus, – fe'i hachubwyd, ond ni cheir unrhyw gyfeiriad ato ef nac at yr Israeliaid yn hanes yr Aifft.

Ym mis Tachwedd, 1951, ymunodd Emyr â'r Llu Awyr am ddwy flynedd. Drwy hyn, cafodd gyfle i weld gwledydd Ewrop a bod yn un o'r gyrwyr a oedd yn gysylltiedig â sgwadron gwrthgyrch awyrol yng ngorllewin yr Almaen. Gwlad o lawnder oedd yr Almaen ym 1952 – ni cheid yno ddogni bwydydd fel ym Mhrydain. Roedd pawb yn brysur yn ailadeiladu dinasoedd a threfi a ddifrodwyd. Pan adawodd yr awyrlu, ymunodd â'r llongau masnach. Yna, ymunodd y bachgen hwn o Esgairdawe â llongau olew Cwmni Shell, a olygai deithio o gwmpas prif gefnforoedd y byd.

Dechreuodd weithio gyda chwmni Petroliwm Esso yn Aberdaugleddau ym 1960 ac ym mis Ebrill, 1963, aeth ef a chwech o'i gwmni allan i Libya, i ddechrau purfa yno a hyfforddi'r Libyaid i'w rhedeg. Arhosodd yno am ddeunaw mlynedd a'r cwmni hwn oedd y cyntaf i ddarganfod olew yno. Tra oedd yn Libya, cafodd Emyr gyfle i ymweld â rhai mannau i'r dwyrain o Fôr y Canoldir, – Palestina, y wlad i'r gorllewin o'r Iorddonen a Jerwsalem, lle'r arhosodd am wythnos, gan ymweld â Bethlehem, lle gwelodd fugeiliaid yn gwylied eu praidd.

Ar Ragfyr 28ain, 1968, ymbriododd â Morna Craig yn ninas Dundee yn yr Alban. Yr adeg honno, 'roedd Morna'n athrawes mewn ysgol yn Llundain ac ychydig fisoedd yn ddiweddarach, ymunodd ag ef yn Libya. Cymerai'r rhai y cydweithiai Emyr â hwy ddiddordeb mewn ymchwilio i'r ffordd y trefnir priodas

yn y Deyrnas Unedig o'i chymharu â'u gwlad hwy. Yn Libya, fel ymhob gwlad Fohametanaidd, y rhieni sy'n trefnu priodas eu plant.

Gwelodd Emyr gyfnewidiadau mawr yn Libya. Gyda'r dirywiad yn iechyd y Brenin Idris a'i farwolaeth yn ddiweddarach, daeth y llywodraeth a'r dull ffiwdalaidd i ben ac 'roedd trefniadau ar y gweill i gael senedd werinol. Ond, ym 1969, cymerodd capten o'r fyddin, sef Gaddafi, ynghyd â deuddeg o'i filwyr reolaeth ar y wlad a chyflwyno deddfau newydd.

Ym 1981, gadawodd Emyr Libya pan drosglwyddwyd ef i Saudi Arabia. Yn y cyfnod hwnnw, 'roedd y wlad yn allforio deng miliwn o gasgenni olew, yn ddyddiol, am ddeugain a dwy o ddoleri (yr Unol Daleithiau) yr un. O fewn rhai misoedd, syrthiodd y pris i'r fath raddau fel y gostyngwyd y cynnyrch i dair miliwn o gasgenni y dydd er mwyn cadw'r pris i fyny. Gwelwyd lleihad amlwg yn nifer y tramorwyr a weithiai yn y diwydiant olew, ond bu Emyr yn ffodus i gael gorffen ei gytundeb o dair blynedd, a hynny ym 1984.

Wrth deithio'n helaeth ar draws y byd a gweld gwahanol ddiwylliannau a chrefyddau, mae'n syndod iddo cyn lleied oedd gwybodaeth yr unigolyn am grefydd ei gymydog. Pan fydd person yn perthyn i enwad gwahanol, fe'i drwgdybir. Dim ond rhyw ddau neu dri a gyfarfu a fedrai drafod crefydd a dadlau ynglŷn â'i gryfderau a'i wendidau. Cred mai'r rheswm am hyn yw'r ffaith fod y mwyafrif yn anwybodus o'u crefydd eu hunain, sef sut y daeth i fodolaeth.

Tra bu Emyr yn byw dros y dŵr, cadwodd gysylltiad â gwlad ei enedigaeth drwy gyfrwng gwasanaeth bydeang y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig. Pan adawodd Saudi Arabia, ymgartrefodd ef a'i briod yng ngogledd Llundain am ddwy flynedd. Yna, symudasant i Andorra, gwlad fechan ym mynyddoedd y Pyreneau – sy'n gwahanu Ffrainc a Sbaen. Mae eu cartref bedair mil o droedfeddi uwchlaw lefel y môr.

Mae'r rhan fwyaf o Andorra o dan flanced o eira yn ystod misoedd y gaeaf. Felly, sgïo yw'r adloniant mwyaf poblogaidd, ond, mae'n boeth iawn yno ym misoedd yr haf, yn rhy boeth, ar brydiau, i weithio tu allan yn y prynhawn. Prif gynnyrch y wlad yw tybaco. Cedwir y da a'r defaid i mewn drwy'r rhan fwyaf o'r flwyddyn oherwydd yr eira a'r gwres. Mae yna ffordd rad i gael gwres canolog i gadw'r ffermdai'n gynnes, drwy fod

yr anifeiliaid ar y llawr isaf a'r teulu ar y llawr uwchben!

Iaith frodorol y wlad yw Catalan, sydd hefyd yn cael ei defnyddio yng ngogledd-ddwyrain Sbaen. Siaredir Ffrangeg, Sbaeneg a Saesneg hefyd. Fel y Gymraeg, cyfrifir Catalan fel iaith y lleiafrif yn Ewrop.

Cred Emyr mai gan Ddewi Emrys y mae'r ateb i'r cwestiwn, – 'Beth sydd gan y dyfodol mewn stôr i'r ddynoliaeth pan edrychir tua'r gorwel gyda'r wawr a'r cyfnos?'

Wele rith fel ymyl rhod – o'n cwmpas,
Campwaith dewin hynod;
Hen linell bell nad yw'n bod,
Hen derfyn nad yw'n darfod.[20]

[1]*Y Cenhadwr Americanaidd,* 1896, t. 30
[2]Ibid, t. 31
[3]Ibid, t. 31
[4]Ibid, t. 31
[5]*Hen Dŷ Ffarm,* D.J. Williams, 1953, t. 13
[6]Ibid, t. 18
[7]Ibid, tt. 114, 115
[8]*Yn Chwech ar Hugain Oed,* D.J. Williams, 1959, t. 193
[9]Ibid, t. 206
[10]*Hen Dŷ Ffarm,* D.J. Williams, 1953, tt. 179, 180
[11]Ibid, t. 48
[12]Soned ar y testun, 'Atgofion' – Mary Eunice Williams
[13]*Y Cawr o Rydcymerau,* D.H. Culpitt a W. Leslie Richards, 1970, t. 14
[14]Ibid, t. 32
[15]Ibid, t. 43
[16]*Hen Dŷ Ffarm,* D.J. Williams, 1953, t. 24
[17]*Hanes Ysgol Esgerdawe,* M.E. Williams, 1982, t. 91
[18]Ibid, t. 91
[19]Taflen drwy law W.J. George, Llundain
[20]*Ffurfiau'r Awen,* W. Leslie Richards, 1961, t. 92

VII

# NODWEDDION YR ADEILADAU YNGHYD AG AMBELL DDIGWYDDIAD A GWELLIANT

## 1. **1690 – 1756**

Yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg, nid oedd yr adeiladau yr addolid ynddynt yn cyfrif llawer. Yn hytrach, cynulleidfaoedd neu gymdeithasau wedi ymgynnull ynghyd i ffurfio eglwysi oeddynt – y bobl oedd yn bwysig ac nid yr adeiladau. Gelwid hwy'n Ymneilltuwyr neu'n Biwritaniaid. Caent eu herlid oherwydd eu cred. Roedd yn rhaid i'r rhai a ymgasglai ynghyd y tu allan i'r Eglwys Sefydledig gwrdd yn y dirgel er mwyn osgoi cael eu darganfod gan yr awdurdodau seciwlar ac eglwysig. O ganlyniad, ni fyddai'n ddoeth i'r addolwyr hyn ganolbwyntio llawer ar y lle yr addolent ynddo. Gwastraff ar amser ac eiddo personol fyddai hynny yn nhyb y mwyafrif ohonynt. Pe baent yn cael eu darganfod, byddai'n rhaid iddynt adael y cyfan ac wynebu cosbau erchyll. Dechreuodd yr erlid llymaf ym 1632, ond fe heriodd gŵr o'r enw William Wroth yr awdurdodau drwy sefydlu'r Eglwys Annibynnol gyntaf yn Llanfaches, Mynwy ym 1639. Roedd ei ddewrder yn anhygoel. Nid oedd dim a safai rhyngddo ef a'i gefnogwyr a gwireddu eu brwdfrydedd a'u weledigaeth. Ym Mehefin 1989 dathlwyd seithfed Jiwbili sefydlu'r eglwys honno. Dyma gymal a ymddangosodd yn y *Tyst*, –

> Defnyddiwyd brawddeg ddisgrifiol am frwdfrydedd a gweithgarwch y Piwritaniaid hyn, sef bod yr efengyl yn eu dwylo "yn llosgi fel tân mewn to gwellt". Lledodd y tân i'r Cymry ymhlith 'ye mountains' lle ffurfiwyd cwmnïau annibynnol ar yr Eglwys Wladol. Ond o flaen pob peth arall achub eneidiau oedd y nôd, ac yna meithrin eu bywyd ysbrydol i'r penllanw o dan arglwyddiaeth Crist mewn cymdeithasau rhydd.[1]

Ym 1689, cydsyniodd 'William of Orange' i gyflwyno Deddf Goddefiad, ac yn y flwyddyn ddilynol gwelwyd tipyn o fenter



*Esgairowen*

ymhlith yr addolwyr yn ardal Esgairdawe. Fel y cyfeiriwyd eisoes, dechreuwyd Achos Annibynnol yno, yn nhŷ neu ysgubor Esgairowen. Mae'n amlwg fod Daniel Harry, perchennog Esgairowen, yn barod i gydymdeimlo â'r rhai a fynnai glywed Gair Duw yn eu hiaith eu hunain. Roedd hefyd yn fodlon mentro, wedi codi trwydded, beth bynnag fyddai'r canlyniadau. Mae'n debyg ei fod yn ŵr duwiol ac yn aelod yng Nghrug-y-bar.

Credir mai yn yr ysgubor y cynhelid y cyrddau. Yn ôl tystiolaeth lafar, ni cheid hyd yn oed bulpud yn yr addoldy cyntaf hwn. Byddai hwnnw'n brawf fod yr addolwyr yn cyfarfod yno a byddent mewn perygl o gael eu dal. Mae'n amlwg nad oeddent yn ffyddiog iawn, er i Ddeddf Goddefiad ddod i rym. Ymddangosai popeth yn normal yn yr ysgubor yn ystod yr wythnos a byddid yn clirio tipyn o'r gwellt a'r gwair erbyn y Sul.

Tybir mai ar eu traed y safai'r bobl. Gwnai hyn hi'n haws iddynt ddianc pe bai galw am hynny. Rhaid cofio bod y lle'n llawn o addolwyr a byddai seddau'n difa tipyn ohono. Ni cheid tân yno chwaith, ond 'tân yn y galon'. Dichon fod y gwellt a'r gwair yn help i gadw'r traed yn gynnes yn nyfnder gaeaf. Roedd cael to a phedwar mur, drws a ffenestr yn ddigon i foddloni'r gwerinwyr tlawd a selog. Pa faint bynnag fu'r anghyfleusterau,

fe'u gorchfygwyd. Parhawyd i addoli yn Esgairowen am drigain a chwech o flynyddoedd. Ni cheid pregethwr i gymryd y cyrddau bob Sul ond byddai'r aelodau'n cyflawni'r gwaith yn eu tro. Pa un ai ei dŷ neu ei ysgubor a drwyddedodd Daniel Harry ar gyfer pregethu, ni wnai lawer o wahaniaeth i'r addolwyr pybyr hynny. Cyntefig iawn oedd cartrefi'r bobl yn y cyfnod hwnnw – ffenestri bychain a llawr pridd. Yr unig beth a olygai fod tŷ yn rhagori ar ysgubor oedd fod tân yno. Byddai gwres yn anhepgor yn ein hoes ni am fod ein hagwedd tuag at grefydd dipyn yn oerach nag eiddo'n hynafiaid.

2. **1756-1844**

Ym 1754, daeth goleuni dros y gorwel, a chyfle i godi addoldy ger fferm Esgairdawe. Profwyd cydymdeimlad a haelioni gŵr arall, sef John James. Yn gyffredinol, cynyddodd nifer yr addolwyr i'r fath raddau yn y ddeunawfed ganrif fel y dechreuasant baratoi addoldai sefydlog. Er hynny, ychydig o gapeli a godwyd rhwng 1689 a 1800. Yn hytrach, fel yn Esgairdawe, troi ysguboriau neu dai annedd yn fannau trwyddedig i bregethu ynddynt a wneid. Ond, mae'n amlwg fod rhai o'r cynulleidfaoedd ychydig yn fwy ffyddiog y caent lonydd bellach i addoli.

Aethpwyd ati i godi'r capel bychan hwn a sylweddolwyd y byddai'n fwy cyfleus, ond nid lle atyniadol mohono. Ni feddai'r bobl lawer o gyllid i'w wario ar adeiladau er bod angen mawr am le addas i addoli. Roeddent yn wyliadwrus hefyd na fyddai'r adeilad yn rhoi awgrym o gysegr. Cael lle cymwys i bregethu ynddo oedd eu bwriad – mor syml ac union â'u ffydd hwy eu hunain. Pensaernïaeth werinol a ddymunent, – tŷ hir, yn unol â'r traddodiad brodorol, fel eu ffermdai, eu bythynnod a'u hysguboriau.

Agorwyd yr Hen Dŷ Cwrdd yma ar Dachwedd 7fed, 1756. Mae'n debyg mai adeilad braidd yn dywyll ydoedd, hyd yn oed yn y dydd. Pan gynhelid cwrdd nos, dim ond golau cannwyll neu ddwy a geid yno. Roedd ganddynt bulpud syml o bren, ac un braidd yn uchel. Erbyn hyn, y pulpud oedd canolbwynt yr addoldai. Dyma'r cnewyllyn, – a'r adeilad o'i gwmpas megis plisgyn. Eisteddai'r diaconiaid ar sedd gul o boptu'r pulpud, ac, wrth edrych ar y pregethwr, byddent yn dioddef oddi wrth wargaled, digon poenus, ond prin yr achwynent ddim. Nid oedd yno yr un sedd sefydlog. Deuai'r aelodau â meinciau oeraidd,

di-gefn o'u cartrefi, gyda'u henwau wedi eu hysgrifennu oddi tanynt â sialc. Felly, pan fyddai eu hangen at waith arall, megis dal defaid ar ddiwrnod cneifio, symudent hwy yn ôl y gofyn. Er bod y meinciau di-gefn yma yn anodd eu dioddef a'r gynulleidfa'n cynnwys oedolion, yn bennaf, ni fyddent hwythau'n achwyn chwaith. Onid oedd ganddynt le heddychol i addoli? Dyna'r peth pwysicaf yn eu golwg a byddent yn cau eu llygaid ar betheuach dibwys.

Llawr pridd oedd i'r Hen Dŷ Cwrdd. Roedd lle tân yn y pen gogleddol, gyferbyn â'r pulpud. Tân mawn a wneid yno bob Sul yn y gaeaf a hwnnw'n sirioli a nawseiddio tipyn ar yr adeilad:

> Mae yr hen bobl a'r gwragedd gwanllyd yn ymdwymo o flaen y tân mawn; ac yn ystod y gwasanaeth, os bydd rhywun yn teimlo anwyd ar ei draed, symudai tua'r cyneswr, a dychwel un arall ar ôl ymgysuro i'w eisteddle, gan roi lle i ryw drydydd, a chan gyfnewid a'u gilydd, gwnant y goreu o'r tân, heb golli dim o'r gair a leferir.[2]


Cymerai'r gwragedd at y gorchwyl o 'gadw'r mis' yn eu tro, a hynny yn y tŷ cwrdd. Wedi'r oedfa, ymgasglai'r diaconiaid, yn ogystal â'r penteulu a gadwai'r mis, o gwmpas y tân. Ar ôl ei brocio, gosodid dau neu dri darn o fawn arno, fel y gallai'r gweinidog ei gynhesu ei hun ar gyfer y daith o groesi'r mynydd a orchuddid nid yn anaml gan drwch o eira rhewllyd. Roedd cwpwrdd bach yn y mur, ar yr ochr chwith i'r lle tân. Tynnai'r wraig a gadwai'r mis allwedd o'i phoced i agor y cwpwrdd ac ymestyn am 'dorth chwech o fara gwyn'. Byddai wedi'i phrynu y diwrnod cynt gyda Mali'r Pound, ar ei ffordd adre o farchnad Llambed. Roedd yno ddarn o gaws, llond llestr bychan o ymenyn a photelaid o gwrw hefyd. Mae'n amlwg nad te a ddefnyddid fel diod adeg prydau bwyd, er mai'r Sabath ydoedd a'u bod mewn lle o addoliad. Cofiwn hefyd mai gwin meddwol a ddefnyddid yng ngwasanaeth y cymun hyd ddechrau'r ganrif hon.

Wedi i'r gweinidog gael ei ddigoni, byddai'n tynnu ei bibell o'i boced, – 'cetyn du, . . . wedi gweled llawer o aberthau llosg'. Byddai'n ei llanw â'r tybaco a ddarperid iddo gan y wraig a oedd yn gweini arno, yn ei gosod yn y tân ac yn smocio nes bod yr addoldy yn llawn o fwg. Ymgadwai'r rhai a oedd yn fyr eu hanadl mor bell ag y medrent oddi wrtho am na allent

ddygymod â'r awyr afiach. Tra byddai'r gweinidog yn mwynhau ei getyn, arferai'r wraig bersawdio'r gwesteion eraill i orffen y dorth a gwacáu'r botel. Gwnai'n eglur iddynt mai dyma oedd eu dyletswydd am nad oedd hi'n bwriadu eu cario adref. Byddent hwy'n brysur yn 'rhoi'r byd yn ei le' a'r gweinidog, wedi gorffen y bibellaid gyntaf o faco, yn barod am yr ail. Tra byddai ef yn ei pharatoi, âi un o'r cwmni allan i'r stabl i hôl *Star,* caseg y gweinidog, yn barod i'w gario dros y mynydd. Yn y stabl, ceid tas o fawn a thipyn o wair. Ni fyddai *Star* yn barod am yr alwad os byddai bran ar ôl yn y preseb. Yn ei thyb hi, nid oedd un oedfa yn para'n rhy hir tra byddai digon o fwyd o'i blaen. Pe bai hwnnw'n brin, gorau po gyntaf y cyrhaeddai ei hystabl ei hun yn Erwion. Roedd croglofft fechan uwchben y llawr lle cynhelid y cyrddau ac y gweinyddid 'y mis', gyda mynediad i'r llofft yma o'r tu allan. Yn y stabl gerllaw y treuliai *Star* gyfnod pleserus bob Sul. Digon araf a difater y dringai hi y llethrau uwchben y capel i ddwyn ei pharchedig feistr yn ôl i Ffaldybrenin, neu i rywle pellennig ar gyfer cyhoeddiad arall.

Roedd yr Hen Dŷ Cwrdd mewn ardal unig a diarffordd, a phan ddeuai ambell ddieithryn i ymweld â'r lle, ni ddisgwylid iddo gwrdd ag undyn byw ac eithrio ar y Sul. Yn ôl Kilsby, unig obaith gweld cynulleidfa ar ddydd gwaith oedd 'iddi gyfodi oddiwrth y meirw'. Rhydd hyn awgrym fod claddfa gerllaw'r tŷ cwrdd. Ceir tystiolaeth lafar hefyd sy'n cadarnhau fod mynwent fechan yr ochr arall i'r heol. Ni ddaeth unrhyw gofnodion claddu i'r golwg am y cyfnod hwn, ond, mae lle i gredu fod amryw wedi'u daearu yno er na osodwyd carreg i ddynodi'r fan. Mae'n debyg i'r darn tir hwn gael ei aredig yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Cyntefig a chyffredin iawn oedd y tŷ cwrdd hwn. Nid oedd ansawdd adeiladau'r ddeunawfed ganrif yn gyfryw ag i sicrhau y byddai eu hoes yn hir iawn. Yn ogystal, tyfai'r cynulleidfaoedd o Sul i Sul ac 'roedd angen mwy o le ar eu cyfer. Felly yn Esgairdawe. Daeth angen am addoldy newydd eto. Golygai hyn dipyn o anturiaeth o ystyried sefyllfa ariannol y crefyddwyr cynnar hynny, ond dichon i'w ffydd gryfhau wedi iddynt gael llonydd i addoli am bedwar ugain ac wyth o flynyddoedd yn ychwanegol yn yr Hen Dŷ Cwrdd. Erbyn heddiw, dim ond ychydig gerrig sy'n dynodi'r fan lle safai.



*Olion yr Hen Dŷ Cwrdd*

3. **1844 hyd heddiw**

Aethpwyd ati i godi capel yn nes i ganol y gymdogaeth, – tua milltir o'r Hen Dŷ Cwrdd, ar y ffordd i Lansawel. Codwyd y rhan fwyaf o gapeli ddechrau'r ganrif ddiwethaf gan aelodau'r gynulleidfa eu hunain. Ni fedrai'r mwyafrif o'r cynulleidfaoedd fforddio adeiladu capeli newydd. Roedd y rhai a fentrai ar y gwaith yn ffodus o gael gweinidog a gymerai ddiddordeb mewn cynllunio adeiladau. Gweinidog Esgairdawe adeg y fenter hon oedd y Parchedig Rhys Jones. Bu'n gyfrwng i gynllunio capel Ffaldybrenin ym 1834 a diau iddo fod yn gysylltiedig â'r gwaith yn Esgairdawe hefyd. Roedd y broydd cyfagos yn ffodus o gael cymorth gŵr fel hwn ynglŷn â chynllunio capeli eraill i'r enwad. Ni wyddom a oedd y cyfryw rai yn cael eu hystyried yn benseiri cydnabyddedig ai peidio, ond arbedid llawer o arian wrth gael gwasanaeth gwŷr lleol.

Hwyrach mai dyma'r lle priodol i roi amlinelliad o gefndir y werin bobl yn y cyfnod hwn. Roedd tlodi mawr yng nghefn gwlad Cymru, yn bennaf o ganlyniad i'r cynnydd yn y boblogaeth. Rhwng 1801 a 1841, cynyddodd poblogaeth sir Gaerfyrddin o 67,317 i 106,326, a gwaetha'r modd, 'roedd prinder gwaith am nad oedd yno dwf diwydiannol. Codai'r

rhenti yn gyson a cheid agendor mawr rhwng tenantiaid y ffermydd bychain a'r meistri tir. Saeson oeddynt hwy, yn bennaf, yn byw yn Lloegr ac wedi dod yn berchnogion ffermydd Cymru drwy briodas. Hwynt-hwy oedd yn rheoli popeth, megis llywodraeth leol a phennu deddfau. Cefnogent Eglwys Loegr. Cymry oedd y mwyafrif o'r tenantiaid a'r gweision, ac Anghydffurfwyr oedd y rhan fwyaf ohonynt.

Cafwyd cynaeafau gwael ym 1840 a rhai hafau eraill yn ogystal. Effeithiodd hyn ar Gymru'n gyfan-gwbl. Roedd yr elfennau fel pe baent yn llethu'r tenantiaid tlawd. Problem arall oedd cyflwr y ffyrdd. Arferai'r plwyfi fod yn gyfrifol amdanynt, ond, bellach, cyfrifoldeb y meistri tir oedd hynny. Penderfynasant hwy godi tollbyrth er mwyn cael arian i wella'r ffyrdd, ond aeth y tollau a delid gan y tenantiaid yn ormod o faich iddynt. Codwyd clwydi hyd yn oed ar ffyrdd a lonydd bychain a byddai'r Saeson yn rhentu'r clwydi i geidwaid i'w gwarchod a chasglu'r tollau. Unig amcan y meistri oedd sicrhau elw iddynt hwy eu hunain.

Gwnai'r tenantiaid ddefnydd cyson a helaeth o'r ffyrdd wrth ddwyn eu hanifeiliaid a chynnyrch y fferm i'r farchnad, a chario calch a gwrteithiau eraill i wella'u ffermydd. Er bod y baich o orfod talu'r tollau drud yn annioddefol, cynyddu a wnaeth nifer y tollbyrth, ac fe gododd y tollau hefyd. Fel pe bai hynny ddim yn ddigon, disgwylid i bob tenant dalu'r degwm, – sef y ddegfed ran o gynnyrch y fferm, a hynny i'r eglwys er mwyn cynnal yr offeiriad. Dyletswydd perchnogion y ffermydd oedd hynny, ond gofalent hwy gynnwys cyfanswm y degwm yn y rhent a dalai'r tenantiaid iddynt. Ni fyddai'r tenantiaid yn ystyried hyn yn deg am mai Ymneilltuwyr oedd y mwyafrif ohonynt ac nid aelodau Eglwysig. Gresynent fwyfwy oherwydd y ffaith fod y meistri tir yn cadw'r rhan fwyaf o'r degwm, a rhoi swm isel iawn i'r offeiriaid.

Er iddynt lafurio'n gydwybodol a chaled drwy'r flwyddyn, câi'r tenantiaid hi'n anodd cael 'dau ben y llinyn ynghyd'. Methodd rhai ohonynt â thalu eu rhenti, ac o ganlyniad, cawsant eu troi allan o'u ffermydd. Ymfudodd llawer i'r Amerig er mwyn ceisio cael gwell amodau byw.

Mae'n anodd i ni heddiw ddirnad y dioddefaint a brofodd y werin bobl yn nhri a phedwardegau'r ganrif ddiwethaf, ac anos yw deall penderfyniad aelodau'r Hen Dŷ Cwrdd yn

Esgairdawe i fynd ati i godi addoldy newydd. Dengys eu brwdfrydedd eu bod yn tybio fod yn rhaid iddynt gael lle teilwng i addoli ynddo, ar waethaf y tlodi enbyd a ddaeth i'w rhan. Roedd eu ceiniogau mor brin fel yr oedd yn anodd iddynt gael angenrheidiau beunyddiol a dichon i'r cyfan effeithio ar eu cyflwr meddyliol. Roedd hynny'n cryfhau eu hawydd am adeiladu capel newydd er mwyn iddynt fedru canolbwyntio ar y gorchwyl hwnnw ac anghofio'r cyni a'r gorthrwm.

Yn y cyfamser, dechreuwyd gwrthdystio yn erbyn y tollau trymion. Cychwynnwyd yr ymgyrch a elwid 'Terfysgoedd Beca' ar Fai 13eg, 1839 yn Efail-wen, sir Benfro. Y prif amcan oedd chwalu'r tollbyrth a'r tolldai a oedd yn gysylltiedig â hwynt. Gwisgodd cannoedd o ffermwyr ddillad merched, gan orymdeithio o dan faner Beca, eu harweinydd. Dywedir mai Twm Carnabwth o ardal Efail-wen, oedd y Rebecca gyntaf. Gwisgai wn hir, gwyn gan farchogaeth ceffyl gwyn, a gelwid ei dilynwyr yn 'Ferched Beca'. Roedd gan Beca wallt hir, cyrliog yn hongian dros ei hysgwyddau, gyda'i hwyneb wedi'i dduo. Llosgwyd y tollbyrth a'r tŷ yn Efail-wen y noson gyntaf honno, a phan godwyd rhai eraill yn eu lle, maluriwyd y rheiny hefyd.

De-orllewin Cymru, sef sir Gaerfyrddin, sir Benfro a sir Aberteifi a ddioddefodd fwyaf oddi wrth y tollbyrth ac a welodd fwyaf o ganlyniadau 'Terfysgoedd Beca'. Ymledodd yr ymgyrch yn fuan o sir Benfro i sir Gaerfyrddin, ac ymunodd cannoedd yn y gwrthdystio, – rhai ar draed ac eraill yn marchogaeth. Dinistriwyd llawer o dolldai, ymosodwyd ar y ceidwaid a chwalwyd dros bedwar ugain o dollbyrth yn sir Gaerfyrddin. Gwnaed llawer o ddifrod. Er hynny, mae'n syndod na chafodd Beca a'i merched eu dal. Bu cannoedd o blismyn o Loegr ar ddyletswydd ond methwyd â dal y fyddin a chwalai bopeth o'i blaen. Gweithiai Beca a'i phlant yn dawel ac yn guddiedig. Does ryfedd fod ganddi gynifer o ddilynwyr, oherwydd yr oedd holl bobl y tair sir yn blant iddi. Gwyddai hithau am eu gofidiau.

> The Rebecca Riots which began in 1839, were occasioned by the setting up of new turnpike toll gates and the excessive charges which farmers had to pay at these gates to convey lime over distances. On a deeper level they were a protest by a long-suffering peasant society against poverty and the social evils and injustices of their time.[3]

Parhaodd y terfysgoedd hyd fis Medi, 1843. Nid yn unig ymosod ar y tollbyrth a wnai Beca a'i chefnogwyr. Danfonent lythyrau i berswadio pawb i beidio â thalu'r tollau. Cynhaliwyd cyfarfod arbennig yng Nghaerfyrddin er mwyn dangos mai cael gwared ar yr holl dollbyrth oedd y bwriad. Cafodd y werin bobl gyfle i fynegi eu gofid ac i ddyheu am dipyn o barch. Yn hytrach na pharhau i gael eu gormesu, codasant fel un gŵr yn erbyn y meistri tir. Trôdd yr orymdaith fawr drwy Gaerfyrddin y diwrnod hwnnw yn gythrwfl ac fe ymosodwyd ar y tloty. Rhan o'r brotest yn erbyn talu'r tollau oedd hyn, yn ogystal â gwrthdystio yn erbyn yr amodau byw gwael a geid yno. Gwyddai'r protestwyr am y driniaeth a gâi'r tlodion a ddanfonid i'r sefydliad. Yr unig beth a fynnai plant Beca oedd cyfiawnder. Bu llawer un yn cymryd rhan Beca fel arweinydd. O'r diwedd, daliwyd dau ohonynt sef Shoni Sgubor-fawr a Dai'r Cantwr – a ddaethai o Went a Morgannwg. Alltudiwyd hwynt i Dasmania lle buont farw.

Credir i'r syniad o brotestio o dan arweinydd o'r enw Beca neu Rebeca ddeillio o'r hyn a geir yn Llyfr Genesis, pennod 24, adnod 60. Mae'r cyfieithiad a welir yn y Beibl Cymraeg Newydd yn cyfleu'r gwirionedd yn fwy effeithiol na'r hen gyfieithiad:

> . . . a bendithio Rebeca, a dweud wrthi, "Tydi, ein chwaer, boed iti fynd yn filoedd o fyrddiynau, a bydded i'th ddisgynyddion etifeddu porth eu gelynion."

Bu'r ymgyrch hon yn ardaloedd gwledig Cymru yn llwyddiant. Cafodd Beca a'i phlant fuddugoliaeth. Trafodwyd achosion y terfysgoedd gan gomisiwn a sefydlwyd i gasglu gwybodaeth amdanynt. Cyhoeddwyd y canlyniadau ym mis Mai, 1844. Cafodd system y tollau ei symleiddio a phasiwyd deddfau ym mis Awst y flwyddyn honno i ddiwygio Ymddiriedolaethau'r Tollbyrth. Sicrhawyd gwell amodau byw yn y tlotai a thrwy ddyfodiad y rheilffyrdd cafodd pobl dlawd gyfle i ymfudo i gymoedd diwydiannol Morgannwg a Mynwy. Aeth llawer o gefnogwyr Rebecca i gymoedd dwyrain sir Gaerfyrddin a sir Forgannwg er mwyn dechrau bywyd newydd. Daeth y Cynghorau Sir i fodolaeth ym 1888 i geisio datrys problemau cymdeithasol ymhlith y cymunedau amaethyddol

a sicrhau gwell amodau ynglŷn â symud anifeiliaid a cherbydau yn ôl yr angen.

Dathlwyd canmlwyddiant a hanner 'Terfysgoedd Beca' ym 1989 a chredir i'r ymgyrch gynnar honno roddi tangnefedd a thegwch i ffermwyr tlawd y wlad. Mae'n debyg mai dyma oedd safiad merched Beca, – "Un ydym ni er mwyn diogelu gwerthoedd ein cenedl".

Ond i ddychwelyd at Esgairdawe, ni wyddom pa bryd y dechreuwyd ar y gwaith o godi'r capel newydd yno. Ni cheir unrhyw wybodaeth chwaith pwy a fu'n clirio'r safle a chloddio cerrig o'r chwareli. Gwaith caled ydoedd – llafurio â'r dwylo cyn dyfodiad y peiriannau a geir heddiw i ysgafnhau a phrysuro'r gorchwyl o adeiladu. Ysywaeth, ni wyddom pwy a fu'n dwyn y nwyddau ynghyd na phwy a fu'n gosod maen ar faen.

Pensaernïaeth Roegaidd sydd i'r capel hwn – ar ffurf hirsgwâr, gyda'r ffrynt dipyn bach yn hwy na'r talcen. Fe'i gelwir yn 'side-wall facade'. Dyma lun y mwyafrif o gapeli gwledig ond mae'r 'gable-end facade' yn fyw addas i gapeli trefol, oherwydd cymerant lai o le ar y stryd. Wrth fabwysiadu'r 'gable-end facade' gallai'r gynulleidfa ganolbwyntio'n bennaf ar y mur hwn, heb boeni cymaint am yr ochrau hirion a'r cefn. Dengys rhai capeli fod y ffrynt, y pulpud a'r sedd fawr wedi cael mwy o sylw na gweddill yr adeilad.

Wrth sylwi ar gapel Esgairdawe heddiw, gellir canfod fod cerrig mawr, anghyffredin ymysg y rhai a ddefnyddiwyd i'w adeiladu. Rhaid bod yna ddynion cryf a chyhyrog yn perthyn i'r gynulleidfa. Tybed a gawsant ambell bothell boenus wrth drafod y cerrig yn y chwarel ac wrth godi'r pedwar mur. Os aelodau'r gynulleidfa a gyflawnodd y rhan fwyaf o'r adeiladwaith, gallwn dybied iddynt gymryd amser hir i'w gwblhau. Dichon fod y mwyafrif ohonynt yn gorfod ysgwyddo beichiau trymion ar eu ffermydd yn ogystal. Fodd bynnag, eu nod oedd cael teml deilwng i addoli ynddi, heb gyfrif yr amser na'r aberth. Ceid cystadleuaeth ymysg rhai enwadau parthed adeiladu capeli ysblennydd, ac 'roedd pensaernïaeth yn dechrau cael lle amlwg ganddynt. Wrth gofio'r tlodi a ddaeth i'w rhan, tebyg na allent fforddio talu gweithwyr profiadol. Felly, yn hytrach na byw mewn dyled ar ôl codi addoldy, gweithient yn ddyfal ac yn ddidâl.



*Y Groes a'r Pulpud*

Yn ôl tystiolaeth lafar, codwyd y pulpud yn dra uchel yn y capel hwn hefyd. Roedd hyn yn un o arferion y cyfnod, nid yn unig er mwyn galluogi'r gynulleidfa i weld a chlywed y pregethwr, ond fel y gallai ef gadw llygad barcud ar bob aelod a gyrru'r neges adref. Ar y mur y tu ôl i'r pulpud gwelir llun croes. Dyma'r symbol pwysicaf o'r arwyddion Cristnogol. Fel

yn yr hen addoldai, gyda'r ochr hir yn y ffrynt, gosodwyd y pulpud i wynebu'r drysau. Nid oedd lobi neu gyntedd i'r adeilad gwreiddiol, ac 'roedd dau ddrws i fynd i mewn iddo. Gosodwyd nifer o ffenestri, gydag un ar bob ochr i'r pulpud. Nid yw hyn yn fantais bob amser, yn enwedig pan fydd yr haul yn llygaid y gwrandawyr. Ni wyddys i sicrwydd a oedd seddau sefydlog yn yr adeilad ym 1844. Mae lle i gredu mai rhai symudol oeddynt oherwydd fod enwau lleoedd y teuluoedd a eisteddai ynddynt yn amrywio mewn nifer, e.e. pedair ar hugain o seddau ym 1872 a chwech ar hugain ym 1882 ac ym 1900. Pennwyd swm arbennig i bob aelod dalu am ei sedd. Deil yr arferiad hyd heddiw.

Dymunol yw dod o hyd i dystiolaeth fod yr Hen Dŷ Cwrdd wedi'i droi yn dŷ annedd ar ôl i'r Eglwys Annibynnol ymadael oddi yno am y capel newydd. Ceir prawf o hyn yng Nghyfrifiad 1881. Dyma enwau'r rhai a drigai yno:

David Morgans; ei briod, Hannah Morgans a'u mab, John Morgans.

Gwelir bod teulu'r 'Hendycwrdd', fel y cofnodwyd ef, yn aelodau o'r capel newydd hefyd. Roedd nifer yr aelodau mor fawr fel yr oedd yn ofynnol i ddau deulu rannu sedd. Mae'r 'Hendycwrdd' yn ymddangos ar gyfer sedd, rhif 24 am y flwyddyn 1872, rhif 3 am 1882 a rhif 8 am 1900.

Yn ôl pob tebyg, ni ddarparwyd unrhyw drefniant i gynhesu'r adeilad am lawer degawd. Cerddai'r aelodau i'r cyfarfodydd, a hynny dair gwaith y Sul. Golygai'r daith tua phum neu chwe milltir i lawer ohonynt. Enillent eu gwres ar y ffordd a hwyrach ei fod yn parhau yn y corff drwy gydol yr oedfa. Dibynnid ar olau canhwyllau neu lampau olew.

Er i'r capel hwn gael ei godi a'i agor ym 1844, mae'n syndod dod o hyd i'r ffaith ganlynol:

> The building was certified as a place of meeting for religious worship on the 27th August 1852.[4]

Sut y cymerwyd wyth mlynedd cyn cwblhau'r cofrestru sydd ddirgelwch llwyr.

Erbyn 1909, gwasanaethai'r capel hwn y fro am drigain a phump o flynyddoedd, a gwelwyd yr angen am ei adnewyddu. Roedd hyn yn beth cyffredin yn ystod hanner ola'r ganrif ddiwethaf a dechrau hon. Mae'n amlwg hefyd fod y tlodi mawr

a brofwyd adeg Terfysgoedd Beca wedi dechrau cilio o'r tir, oherwydd gwelwyd datblygiadau mawr ymhlith addolwyr. Dywedir fod yr Annibynwyr yn agor tua phedwar capel yn wythnosol yng Nghymru a Lloegr.

Ardal denau ei phoblogaeth oedd Esgairdawe, hyd yn oed yn y dyddiau hynny. Roedd y capel bron a chyrraedd yr oed gofynnol a'i gwnai yn bosibl derbyn blwydd-dâl o dan ddeddf newydd a ddaethai i rym. Dyma eiriau'r gweinidog, y Parchedig D. Myddfai Thomas:

> Gwasanaethodd hwn ei genhedlaeth yn dda. Ond yr oedd y frawdoliaeth yn teimlo er's rhai blynyddoedd nad oedd i fyny a safon capelau yr oes hon, ac nad oedd yn deml deilwng i addoli Arglwydd y Lluoedd ynddi.[5]

Felly, tua dechrau haf, 1909, aethpwyd ati i adnewyddu'r Deml. Nid oedd angen mynd ymhell cyn cael cynllunydd. Fe'i cafwyd yn y plwy agosaf, sef D.E. Davies, Gelli, Llan-y-crwys. Profodd ei fod yn arbenigwr yn y maes. Cafwyd adeiladydd cywrain gerllaw hefyd – y crefftwr David Davies, Y.H., Bryn-crach, Llan-y-crwys, yr hwn a gyflawnodd y cynllun i'r llythyren. Rhwng y ddau, cafwyd pensaernïaeth gelfydd a chaboledig, fel y tystiai pawb yr adeg honno ac erys prawf o hyn hyd heddiw.

Yn araf y symudai'r gwaith a gallwn synhwyro fod côr y wig a chreaduriaid y maes mewn mudandod llwyr ar adegau, fel pe'n gofyn, "Beth yw'r cynnwrf sy'n yr hen Deml acw?" Tra bu'r gweithwyr yn cyflawni'r gwaith, bu'r eglwys ym Mabilon am ryw bymtheg mis, ond ni ddywedodd, "Pa fodd y canwn gerdd i'r Arglwydd mewn gwlad ddieithr?" Ni chrogodd ei thelyn ar yr helyg ond canodd gydag angerdd yn Ysgoldy'r Cyngor gerllaw, gan wybod, "Os yr Arglwydd a'i myn" y caent ddychwelyd fel tyrfa gref i'w Teml uwchlaw, a honno ar ei newydd wedd. Gwireddwyd eu gobeithion. Ar wahân i ryw dri neu bedwar aelod, y rhai a hunasai, dychwelasant yn fintai werthfawrogol. Yn y cyfamser, dechreuodd un ohonynt, sef Evan Tawe Jones bregethu wrth ddesg yr ysgol o dan weinidogaeth D. Myddfai Thomas. Bu'r Sul hwnnw ar gof Evan Tawe bron hyd at ei farwolaeth ym mis Awst, 1989, ac yntau'n gant namyn dwy.

Tra âi'r gwaith ymlaen, 'roedd eraill yn gweithio yn y dirgel. Un a lafuriodd yn ddygn er mwyn clirio'r ddyled, ar ddiwedd

y dydd, oedd y Parchedig D. Myddfai Thomas. Gwyddai'r ffordd i galon a phoced ei bobl. Bu'r ymateb yn eithriadol a dywedodd, "Ni chyfarfûm ag un cybydd ar fy nhaith". Pregethai yng nghapeli'r cylch gan wneud apêl am gymorth i glirio'r draul yn Esgairdawe. Ni ddisgynnodd ei daerineb ar glustiau byddar, fel y dengys yr Adroddiad a gyhoeddwyd ynglŷn â'r gweithgareddau.

Cwblhawyd y cyfan, gan gynnwys oriel ar ffurf 'U'. Fe'i sicrhawyd wrth dri o'r muriau, gyda phum piler Groegaidd yn dal yr oriel i fyny. Mae'r Groegiaid yn enwog am gerrig cerfiedig a phileri cain o farmor. Roedd gwir angen oriel y dyddiau hynny pan oedd bri ar grefydda a'r bobl yn tyrru i'r oedfaon. Gwnaed lobi neu gyntedd newydd hefyd. Amharwyd llawer ar ymddangosiad rhai capeli wrth adeiladu lobi y tu allan, heb fod yn ymdoddi i saernïaeth gynharach yr adeilad. Nid felly yn Esgairdawe. Neilltuwyd rhan o lawr y capel ar gyfer hynny. Gwnaed y lobi y tu mewn i'r wal ffrynt, cau'r ddau ddrws allanol, rhoi ffenestri yn eu lle a gosod un drws yn y canol, fel y gwelir heddiw. Y tu mewn, adeiladwyd palis pren, gyda drws bob pen iddo i fynd i mewn i'r capel a ffenestr gyda chwareli lliwgar o flaen y drws allanol. Ceir ambell gapel heb gyntedd heddiw. O ganlyniad, fe â'r cynhesrwydd i golli am nad oes modd i'w gadw i mewn.

Yn ôl tystiolaeth Evan Tawe Jones, deallwn mai'r un yw lleoliad y pulpud ag yn y gwreiddiol, ond gyda'r adnewyddiad gostyngwyd ef i'w gwneud yn haws i wŷr y sedd fawr edrych ar y pregethwr. Mae'n debyg bod pulpud ambell gapel wedi ei osod mor uchel fel y gwrthyd rhai pregethwyr esgyn i'r lleoedd peryglus, gan ddewis pregethu o'r sedd fawr. Gallwn dybied mai ym 1910 y gosodwyd seddau sefydlog yn y capel hwn. Rhai derw, sylweddol ydynt wedi'u farneisio. Ceir deg ar hugain ohonynt ar lawr y capel a nifer dda ar y llofft. Cofiwn mai llawr pridd oedd i'r Hen Dŷ Cwrdd, beth bynnag am lawr y capel hwn pan godwyd ef ym 1844. Llawr pren sydd yno heddiw a dichon mai dyma un o'r gwelliannau a wnaed adeg ei adnewyddu. Mae'r nenfwd hefyd wedi ei wneud yn gelfydd. Cyflawnodd y cynllunydd ei waith yn rhad ac am ddim, gan arolygu'r datblygiadau yn gyson. Roedd gan yr adeiladydd brofiad helaeth o adeiladu capeli. Dyma'r hyn a ddarllenwn am y crefftwr hwnnw, sef David Davies, Bryn-crach: